# Y Teulu Smith

**Mae'r teulu Smith** yn ystyried cael anifail anwes ond dydyn nhw ddim yn gallu cytuno pa un fyddai'n addas i

*Allwch chi eu helpu nhw i benderfynu pa anifail anwes fyddai'n gweddu orau iddyn nhw (os o gwbl):*

- **ci**
- **pâr o gwningod**
- **cath**



Maen nhw wedi ymweld â chanolfannau ailgartrefu lleol ac wedi gwneud llawer o ymchwil ar-lein.

Maen nhw i gyd yn awyddus i rannu'r cyfrifoldeb.

Mae rhywun gartref y rhan fwyaf o'r amser.

Maen nhw'n byw mewn tŷ sydd â gardd fawr ddiogel ac mae ganddyn nhw ddigon o arian ar gyfer yswiriant anifail anwes, rhag ofn i'w hanifail anwes fynd yn sâl.

Mae eu tŷ i lawr lôn heb fod yn bell o briffordd brysur.

Maen nhw'n hoff iawn o ddiwrnodau allan, llawer o ymarfer corff a threulio amser gyda'i gilydd fel teulu.





© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21 Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585



#GetPetWise

# Y Teulu Robinson

**Mae'r teulu Robinson** yn ystyried cael anifail anwes ond dydyn nhw ddim yn gallu cytuno pa un fyddai'n addas iddyn nhw.

*Allwch chi eu helpu nhw i benderfynu pa anifail anwes fyddai'n gweddu orau iddyn nhw (os o gwbl):*

- **ci**
- **pâr o gwningod**
- **cath**







Maen nhw'n deulu gofalgar, cariadus a byddan nhw'n derbyn cyfrifoldeb dros anifail anwes.

Mae Mrs Robinson yn gweithio gartref felly mae rhywun yn y fflat bob amser.

Maen nhw'n byw ar lawr gwaelod bloc o fflatiau.

Mae ganddyn nhw ddigon o arian ar gyfer yswiriant anifail anwes rhag ofn y bydd angen triniaeth filfeddygol ar eu hanifail anwes.

Mae eu fflat ger parc mawr tawel.

Mae'r teulu'n mwynhau teithiau cerdded hir a reidio beic yn y parc.

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21 Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

# Y Teulu Carter

**Mae'r teulu Carter** yn ystyried cael anifail anwes ond dydyn nhw ddim yn gallu cytuno pa un fyddai'n addas iddyn nhw.

*Allwch chi eu helpu nhw i benderfynu pa anifail anwes fyddai'n gweddu orau iddyn nhw (os o gwbl):*

- **ci**
- **pâr o gwningod**
- **cath**



Maen nhw'n deulu prysur iawn.

Mae Mr Carter yn feddyg ac mae Mrs Carter yn gyfreithiwr. Mae'r ddau yn gweithio oriau hir ac yn ennill llawer o arian.

Maen nhw'n byw mewn tŷ mawr gyda gardd enfawr ac yn talu am arddwr, dau lanhawr a nani.

Maen nhw'n mwynhau tri neu bedwar gwyliau yn yr haul bob blwyddyn.

Maen nhw'n cyflogi rhywun i ofalu am y tŷ pan maen nhw i ffwrdd.





© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21 Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

# Mr Clark

**Mae Mr Clark yn ystyried cael anifail anwes ond dyw e ddim yn gallu penderfynu pa un fyddai'n addas iddo.**

*Allwch chi ei helpu i benderfynu pa anifail anwes fyddai'n gweddu orau iddo ef (os o gwbl):*

- **ci**
- **pâr o gwningod**
- **cath**





Mae gan Mr Clark anhawster dysgu sy'n ei gwneud hi'n anodd iddo ddod o hyd i swydd.

Byddai wrth ei fodd yn cael anifail anwes ond nid oes ganddo lawer o arian ac mae'n poeni am filiau milfeddygol.

Mae Mr Clark yn byw ar ei ben ei hun ac anaml y bydd yn gadael y tŷ gan nad oes ganddo deulu na ffrindiau i ymweld â nhw.

Mae'n teimlo'n unig iawn yn aml a hoffai gael anifail anwes i rannu ei fywyd ag ef.

Mae ganddo lawer o amser i'w roi i anifail anwes ac mae'n teimlo y byddai'n gwneud perchennog gwych.

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21 Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

# Y Teulu Dunn

**Mae'r teulu Dunn yn ystyried cael anifail anwes ond dydyn nhw ddim yn gallu cytuno ar ba un fyddai'n addas iddyn nhw.**

*Allwch chi eu helpu nhw i benderfynu pa anifail anwes fyddai'n gweddu orau iddyn nhw (os o gwbl):*

- **ci**
- **pâr o gwningod**
- **cath**



Mae Miss Dunn yn fam sengl gyda dau o blant, Sarah a James.

Byddai'n hoffi mabwysiadu anifail anwes i'w phlant i'w hannog i dreulio amser yn yr awyr agored ac i ffwrdd o'r teledu.

Mae gan Miss Dunn ddwy swydd. Mae'n gweithio fel glanhawr a menyw ginio yn ysgol ei phlant yn ystod yr wythnos ac yn y siop papur newydd leol ar y penwythnos.

Byddai'n hoffi anifail anwes a fydd yn gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel yn eu cartref.

Maen nhw'n byw mewn tŷ pâr ar yr stad dai gyferbyn â'r ysgol.



© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21 Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585